

Cofnodion cyfarfod 4/6/2020

Presennol: Y Maer Eifion Roberts (Maer), Sue Davies, Dilys Evans, Eluned Jones, Tony Parry, Alun Price, Carol Rowlands, Cyngorydd Dilwyn Morgan (Gwynedd), Lis Puw (Clerc).

1. **Croesawyd** pawb gan y Maer i'r cyfarfod ar Zoom, profiad newydd i aelodau Cyngor Tref Y Bala. Ar ran y Cyngor a thrigolion y dref, mynegodd werthfawrogiad o ddewrder tri bachgen lleol a lwyddodd i achub dau o blant bach rhag cael eu boddi yn Llyn Tegid yn ddiweddar. Mynegwyd y dymuniad i'w cydnabod mewn modd anrhydeddus pan fydd amgylchiadau cyfarfod yn fwy cyhoeddus yn caniatáu hynny.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Rhys Evans (Dirprwy Faer), Sharon Evans, Ivora Jones a John Caradog Williams

2. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.

3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod cyfrwng e-bost Mai 7fed 2020.

4. **Materion y Clerc:**

- i. Prosiect Adnoddau i leuenctid (o dan adain Ysgol Godre'r Berwyn). Mynegodd y Pennaeth ei diolch i'r Cyngor am y cyfraniad at y prosiect hwn fydd o gymorth i ddiwallu anghenion cyfrifiadurol ac a fydd o gymorth arbennig i ddisgyblion llai breintiedig.
- ii. Llinellau melyn Heol Aran – dywedodd Cyngorydd Gwynedd fod y broses o gael llinellau dwbl ar hyd Heol Aran wedi dechrau, a diolchwyd iddo am sicrhau hyn. Adroddwyd fod y broblem mynediad trwy Heol Aran yn parhau, a chyfarwyddwyd y Clerc i ysgrifennu at berchennog y tŷ i dynnu ei sylw fod y tenant yn aml yn creu rhwystr mynediad. Bydd y Cyngorydd Dilwyn Morgan yn cysylltu gyda'r Gwasanaeth Tân am eu barn ar y sefyllfa.

5. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd adroddiad Dilwyn Morgan, Cyngorydd Gwynedd, a fynegodd yn y lle cyntaf gwerthfawrogiad diffuant o ymroddiad staff Gwynedd. Maent yn gweithio o dan amgylchiadau anodd i gyflawni nid yn unig eu gwaith bob dydd ond llwyth o waith ychwanegol megis gofynion ychwanegol yn y maes Gofal, talu arian i fusnesau ac yn y blaen. Bydd canolfan ailgylchu'r Bala yn agor yn fuan a bydd y Llyfrgell yn agor yn y dyfodol; nid oes dyddiad ar hyn o bryd ar gyfer agor y Ganolfan Hamdden. Diolchwyd yn arbennig i'r staff casglu sbwriel ac i Mr Mike Yates am gadw'r strydoedd yn lân a thaclus. Dim ond y Cabinet sy'n cyfarfod ar hyn o bryd yng Nghyngor Gwynedd.

Diolchodd i Ysgol Godre'r Berwyn am barhau ar agor er mwyn plant gweithwyr rheng flaen.

Diolchodd yn arbennig hefyd i llan Davies: nid yn unig y mae wedi gwneud gwaith anhygoel yn darparu masgiau i'r sector iechyd a gofal, ond mae hefyd wedi creu perthynas arbennig rhwng yr

ysgol â'r Cwmni lle mae yn gweithio a fydd o fantais aruthrol i'r ysgol yn y dyfodol. Cytunwyd y byddai'n ddymunol ei gael i annerch y Cyngor pan fydd amgylchiadau'n caniatáu.

Cytunodd y Cyngorwyr fod diolch yn ddyledus hefyd i weithwyr megis postmyn, gweithwyr yn y fferyllfa, y banc ac yn y siopau bwyd.

6. **Cyfoeth Naturiol Cymru:** Adroddodd Tony Parry ei fod wedi cael ar ddeall bod arolygon amgylcheddol o gwmpas y llyn yn parhau ac y bydd y cais cynllunio terfynol yn cael ei wneud yn yr Hydref. Y disgwyl yw y bydd y gwaith o gryfhau'r arglawdd yn dechrau'r Gwanwyn nesaf.
7. **Is-bwyllgorau:** Derbyniwyd adroddiad am drafodaethau sydd yn digwydd i ddathlu'r Nadolig.
8. **Materion Cynllunio:** Dim
9. **Materion Cyllid:**
 - i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf; mae £100 wedi ei gyfrannu i Tarian Cymru er mwyn prynu ppe i iechyd a gofal yn y Gogledd.
 - ii. Cytunwyd i dalu: Cyflog mis Mai; glanhau llochesi bws (mis Mai) £50.
 - iii. Trafodwyd yr Archwiliad Mewnol a'r tebygolrwydd y bydd angen gohirio cyhoeddi'r Cofnodion Ariannol gan nad ydyw Adroddiad yr Archwilydd Mewnol wedi ei dderbyn hyd yn hyn.
 - iv. Ystyriwyd y dyfynbrisiau ar gyfer yswiriant a chytunwyd i dderbyn y pris isaf, sef un Zurich (£315.03)
10. **Gohebiaeth:** Cyfarwyddwyd y Clerc i ymateb i holiadur Un Llais Cymru.
11. **Partneriaeth Penllyn:** Adroddodd Alun Price fod y cyd-weithio ar y Ganolfan Deulu yn hen adeilad Ysgol Beuno Sant yn mynd yn ei flaen.
12. **Asedau'r Cyngor:** adroddodd Carol Rowlands fod yr asedau mewn cyflwr da.
13. **Materion lleol y Cyngorwyr Tref:**
 - i. Mae'r Cyngorydd Dilwyn Morgan yn trafod gydag artist sut i ymgorffori'r cerrig sydd wedi eu paentio gan blant y dre i ddarn o gelf parhaol i gofio am y cyfnod hwn.
 - ii. Dywedodd y Cyngorydd Dilwyn Morgan y byddai'n tynnu sylw'r Adran berthnasol at oryrru ar hyd Heol Tegid.
 - iii. Dywedodd y Cyngorydd Dilwyn Morgan ei fod mewn trafodaethau gyda busnesau i ail-osod baneri; mae'n bwriadu cychwyn cynllun fel bo pob busnes yn gyfrifol am y palmant o flaen ei eiddo wrth i fusnesau ail-agor yn y dyfodol. Diolchwyd i'r Cyngorydd am hyn ac am ei waith dros y dre.